



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

POLISI AR GYFER DARPARU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

2021/22

TREFNU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

Mae trefniadaeth darpariaeth trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol o dan ofal y Tîm Trafndiaeth Ysgolion. Dylai'r tîm fynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ysgolion. Ffôn: 01685 725000.

POLISI CLUDIANT YSGOLION

Mae Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) yn pennu'r gyfraith am bresenoldeb disgyblion yn yr ysgol ac mae 'Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 (y 'Mesur') yn pennu'r darpariaethau cysylltiedig ar gyfer cludo dysgwyr yng Nghymru a chaiff y rhain eu hadlewyrchu yn y Polisi hwn.

I ddisgyblion o oedran addysg orfodol (5-16) mae dyletswydd statudol ar Gyngorau i:

“Gwneud trefniadau o'r fath ar gyfer darparu cludiant ac fel arall fel y maen nhw'n ei ystyried yn angenrheidiol, neu fel y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei orchymyn, ar gyfer hyrwyddo presenoldeb pobl sy'n derbyn addysg..., a dylid darparu unrhyw gludiant a ddarperir yn ôl trefniadau o'r fath yn rhad ac am ddim.”

Mae Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful yn bwriadu darparu system gludiant fydd yn ceisio cludo disgyblion yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn urddasol. Bydd yr egwyddorion hyn yn berthnasol i'r holl wasanaethau sydd wedi'u contractio gan y Cyngor.

Os, o ganlyniad i leihau meintiau dosbarthiadau, na all disgybl sy'n byw o fewn dalgylch diffiniedig ysgol gael lle yn yr ysgol honno, er mai'r ysgol honno oedd dewis y rhieni/gofalwyr, rhoddir ystyriaeth, ar sail achosion unigol, a ddylid darparu cludiant am ddim i'r plentyn hwnnw. Y ffactorau i'w hystyried fydd y pellter y mae'n rhaid i'r plentyn deithio o'r cartref i'r ysgol, natur y daith e.e. anhawster, hyd, cost, a oes bws ysgol ar gael, a oes cludiant cyhoeddus ar gael a pha mor aml, amgylchiadau penodol y plentyn (a yw'r plentyn yn anabl) a pha mor agos mae ysgolion eraill.

1. YMRWYMIAD DISGYBLION, RHIENI A CHLUDIANT YSGOL

Mae diogelwch trafndiaeth ysgolion yn gyfrifoldeb ar y cyd i'r holl bartïon, gan gynnwys disgyblion, ysgolion, gweithredwyr trafndiaeth a'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth yn unol â chanllaw statudol Cod Ymarfer Teithio sy'n amlinellu cyfrifoldebau a'r hyn a ddisgwylir gan bob parti. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefannau'r Awdurdodau a'r Ysgolion.

2. DIOGELWCH CORFFOROL

Rhaid cludo pob plentyn yn ddiogel a dylai contractwyr sicrhau, os yw'n briodol, bod gwregys diogelwch cywir, harnais neu ddyfais ddiogelu briodol arall yn cael eu gwisgo. Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod plant 3-13 oed yn gwisgo gwregys diogelwch os oes un wedi'i osod. Byddai plant 14 oed a hŷn yn gyfrifol eu hunain am wisgo gwregysau os oes rhai wedi eu gosod. Lle bo'n angenrheidiol, yn ychwanegol at wasanaethau'r gyrrwr, bydd trefniadau

wedi'u gwneud i ddarparu hebryngydd (neu hebryngwyr) ar bob cerbyd heblaw'r rhai hynny sy'n teithio'n ôl ac ymlaen i ysgolion uwchradd. Yn unol â gweithdrefnau arferol yr Adran bydd yr holl yrwyr a hebryngwyr yn atebol i wiriadau arferol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i bob person sy'n dod i gysylltiad dyddiol gyda phlant o fewn maes cyfrifoldeb y Cyngor. Bydd gofyn i gontractwyr sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch rhagnodedig yn cael eu gweithredu bob amser a bod eu staff yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau.

Bydd y contractwr yn darparu gyrrwr a/neu hebryngydd ac ni fydd yn caniatáu i unrhyw berson yrru'r cerbyd heblaw bod gan y person perthnasol yr holl drwyddedau angenrheidiol yn unol â thelerau'r cytundeb.

Bydd y contractwr yn arwyddo cytundeb ysgrifenedig gorfodol gyda phob gyrrwr a/neu hebryngydd a fydd yn pennu'r canlynol:

- hyd y mae'n bosibl, dyletswydd bersonol y gyrrwr a/neu'r hebryngydd fydd sicrhau ymddygiad da gan y disgyblion pan fyddan nhw yn y cerbyd neu wrth fynd i mewn neu allan o'r cerbyd ac y byddan nhw'n rhoi gwybod ar unwaith i'r pennaeth neu aelod dynodedig o staff yr ysgol berthnasol am unrhyw achosion o ymddygiad afreolus. Bydd y gyrrwr neu'r hebryngydd yn sicrhau hefyd bod yr holl ddisgyblion yn aros yn eu seddau pan fydd y cerbyd yn symud;
- mae disgyblion nad yw eu hymddygiad, wrth deithio'n ôl ac ymlaen i'r ysgol, o safon dderbyniol, yn agored i golli eu darpariaeth o gludiant rhad ac am ddim. Gall unrhyw achosion o ddifrod i'r cerbyd sydd wedi'i brofi arwain at gais ar i'r rhiant gyfrannu at gost unrhyw waith trwsio;
- ni chaiff y gyrrwr a/neu'r hebryngydd ddefnyddio iaith anwedus, ysmegu na chario sigâr, sigarét, e- sigarét neu bibell wedi'u tanio pan fydd y plant yn y cerbyd;
- bydd y gyrrwr a/neu'r hebryngydd ei hun yn agor a chau drws/drysau'r cerbyd, a sicrhau eu bod wedi'u cau'n gywir, cyn ac ar ôl i unrhyw deithiwr fynd i mewn, neu ddod allan o'r cerbyd, a bydd yn sicrhau bod hyn i gyd yn cael ei wneud yn ddiogel;
- yn ôl telerau'r cytundeb, bydd gofyn i bob gyrrwr a hebryngydd fod wedi mynychu cwrs hyfforddi wedi'i ddarparu neu ei gymeradwyo gan y Cyngor, os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol;
- bydd y gyrrwr yn gwisgo neu'n cario'r drwydded/bathodyn priodol a roddwyd iddo ef neu hi wrth weithredu'r cytundeb hwn.

3. MYND I MEWN AC ALLAN O GERBYDAU

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried ei bod yn arfer da i brifathrawon sicrhau bod goruchwyliaeth wrth i ddisgyblion fynd i mewn ac allan o gerbydau y tu allan neu wrth ymyl adeiladau'r ysgol. Bydd lefel yr oruchwyliaeth yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ac oed y disgyblion.

4. YMDDYGIAD DISGYBLION

Mae ymddygiad drwg ar gludiant ysgol yn beryglus i ddisgyblion, y gyrrwr, hebryngwyr a defnyddwyr eraill ar y ffyrdd. Gall hefyd beri nad yw cwmnïau'n tendro am wasanaethau ysgol. Er mwyn gwella diogelwch ar gludiant ysgol drwy fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cod Cymru Gyfan Ymddygiad wrth Deithio'. Mae'r Cod statudol yn hyrwyddo teithio diogel i bob dysgwr drwy amlinellu'r safonau ymddygiad sy'n ofynnol. Felly, mae'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion a chontractwyr i annog ymddygiad da ar wasanaethau cludiant.

5. GOFYNION O RAN CERBYDAU

Bydd y contractwr yn darparu cerbyd modur sy'n foddhaol i'r Awdurdod ac sy'n addas ym mhob agwedd i ddiben y cytundeb. Bydd y cerbyd a ddarperir yn lân ac mewn cyflwr da. Bydd y contractwr hefyd yn sicrhau bod y cerbyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau a wnaed o dan neu yn rhinwedd y Deddfau Traffig Ffyrdd a Deddf Teithwyr Cyhoeddus 1981, neu Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpapiaethau Amrywiol) 1976 neu Reoliadau Traffig Ffyrdd (Adeiladwaith a Defnydd) (Gwelliant) (Rhif 2) 1996, sy'n weithredol ar hyn o bryd neu fel arall fel y bo'n berthnasol.

Rhaid i'r contractwr gydymffurfio ag unrhyw Ddeddf, Rheoliad neu Gyfarwyddyd sy'n weithredol ar hyn o bryd, neu sydd i gael eu gweithredu yn y dyfodol.

Rhaid i gerbydau â mwy nag wyth sedd i deithwyr fod wedi'u trwyddedu fel Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus, ac mae'n rhaid i gerbydau ag wyth neu lai o seddau i deithwyr fod wedi'u trwyddedu fel Cerbydau Hurio Preifat neu Gerbydau Hacni.

Rhaid i unrhyw gerbyd sydd wedi'i ddarparu yn unol â thelerau'r cytundeb fod, ar bob adeg rhesymol, ar gael i'w archwilio gan swyddog awdurdodedig o'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, neu gorff statudol.

Bydd yn rhaid i bob bws a bws mini sydd o dan gontract i'r Cyngor ddangos arwydd ar flaen a chefn y cerbyd, pan fo'n cael ei ddefnyddio ar waith contract, yn dangos bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio i gludo plant. Dim ond tra bydd y cerbydau wedi'u contractio i'r Cyngor y bydd yr arwyddion yn cael eu harddangos.

6. DARPARU TRAFNIDIAETH AM DDIM

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu trafndiaeth am ddim i'r ysgol agosaf addas i ddisgyblion mewn addysg lawn amser sy'n byw y tu hwnt i "bellter cerdded" i'r ysgol. Mae'r Cyngor wedi cytuno i ddiffinio'r pellteroedd hyn yn unol â chyfyngiadau statudol, hynny yw 2 filltir i blant oed cynradd (3–11 mlwydd oed) a 3 milltir i ddisgyblion oedran uwchradd (11-16 mlwydd oed). Deil hyn hyd yn oed os nad yw'r ysgol a fynychir yn cael ei chynnal gan yr awdurdod, er enghraifft, os yw mewn ardal awdurdod lleol cymdogol.

Cafodd system o docynnau adnabod ar gyfer trafndiaeth ei chyflwyno i ddisgyblion sy'n teithio ar fws. Rhaid i'r tocyn hwn gael ei gyflwyno wrth ddefnyddio cerbyd priodol, oherwydd mae contractwyr wedi cael eu cyfarwyddo i beidio â chaniatáu i unrhyw blentyn deithio ar gerbyd heb docyn adnabod. Y mae'n bwysig bod y tocyn adnabod hwn yn cael ei gadw'n

ddiogel oherwydd mae'n bosibl y byddai angen talu am ei adnewyddu.

Pan fo disgybl, yn dilyn dewis ei rieni, yn mynychu ysgol nad yw'r un agosaf addas, yn ôl yr hyn a gydnabyddir gan y Cyngor hwn, bydd y rhieni / gofawyr yn derbyn cyfrifoldeb llawn am drefniadau teithio. (Bydd hyn yn cynnwys gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol a thalu am y gost).

Ym mhob achos, bydd y defnydd effeithiol o adnoddau yn pennu'r dull o deithio, yn amodol ar unrhyw ofynion anghenion arbennig. Gellir darparu trafndiaeth drwy wasanaeth teithio ysgol sydd dan gontract, Cyllideb Teithio Bersonol neu wasanaethau teithio cyhoeddus cyfredol sydd, ynghyd â maint a math y drafnidiaeth (bws, bws mini, trê, tacsî ayb), yn cael ei bennu gan yr angen i ddefnyddio adnoddau mewn modd effeithiol.

7. NEWID YSGOLION – TREFNIADAU CLUDIANT

Os bydd teulu disgybl yn symud i gyfeiriad y tu allan i ddalgylch dynodedig yr ysgol, ni fydd cludiant i'r ysgol wedi'i ddarparu'n rhad ac am ddim iddo ef neu os bydd y symud hwnnw'n digwydd yn ystod eu haddysg gynradd neu flynyddoedd saith, wyth neu naw yn yr ysgol uwchradd. Bydd ceisiadau a wneir ar ran disgyblion sy'n symud yn ystod blynyddoedd deg ac un ar ddeg yn cael eu hystyried yn unigol. Bydd cludiant o'r fath wedi'i ddarparu fel arfer os gellir ei sicrhau drwy'r gwasanaethau sy'n bod eisoes ac na fydd yn golygu unrhyw ffi ychwanegol i'r Cyngor.

8. TRAFNDIAETH ÔL-16

Gallai pob myfyriwr sy'n 16, 17 neu 18 mlwydd oed ar 1 Medi, sy'n mynychu cwrs cyntaf o astudiaeth lawn amser mewn coleg/ysgol, fod â'r hawl i deithio am ddim os yw'n ofynnol iddynt deithio o leiaf dair milltir i'r naill gyfeiriad a'r llall. Caiff trafndiaeth ei darparu am ddim i'r Coeg, Merthyr Tudful. Pan na chaiff cwrs ei ddarparu gan Goleg Merthyr Tudful, caiff trafndiaeth ei darparu i'r ddarparwr agosaf addas sef y colegau canlynol: Coleg Y Cymoedd (Campysau Ystrad Mynach, Aberdâr yn unig) a Choleg Pen-y-bont (Campws Pencoed yn unig). Bydd trafndiaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn parhau ar gyfer Ysgol Gyfun Rhydywaun (Cyfrwng Cymraeg), Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Ioan Fedyddiwr, Aberdâr ac Ysgol Uwchradd Gatholig Cardinal Newman, Pontypridd (Ffydd) ar yr amod fod disgyblion yn mynychu'r ysgol ffydd neu Gymraeg am eu haddysg orfodol brif ffrwd.

Dylai'r myfyriwr gysylltu â'r swyddfa gyffredinol yn y coleg, wrth ddechrau cwrs, i gwblhau'r ffurflen gais ofynnol ar gyfer trafndiaeth. Caiff ei gynghori bod myfyrwr yn egluro eu hawl am drafnidiaeth cyn ymrestru.

Gellir darparu trafndiaeth drwy drafnidiaeth benodol i'r dysgwr fel bws neu fws mini neu drwy ddarparu tocyn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd yn ofynnol i'r myfyriwr gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn y man aros / yr orsaf agosaf sydd ar gael ar yr amod ei fod o fewn 3 milltir i gyfeiriad cartref y myfyriwr.

9. MONITRO A GWEITHDREFN GWYNION

Bydd pob cerbyd ar gael ar gyfer gwiriadau ar hap gan y Comisiynydd Traffig, neu gorff addas arall, pan fydd angen. Bydd unrhyw gwynion a dderbynnir gan y Cyngor gan rieni'n ymwneud â gwasanaethau neu gerbydau'n cael eu hymchwilio ar unwaith. Os gwelid bod lle i'r gŵyn, gweithredir yn unol â'r amodau sydd wedi'u hamlinellu yn y cytundeb.

Bydd y Cyngor, ar ddiwrnodau nas nodir, yn gwneud gwiriadau ar hap ar gytundebau i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Bydd y gwiriadau hyn yn digwydd o leiaf unwaith bob tymor ysgol. Bydd dangosyddion perfformiad yn ymwneud â phrydlondeb a boddhad y cleient ymhlith pethau eraill.

Bydd rhieni yn cael eu hysbysu o unrhyw newidiadau i drefniadau teithio neu newidiadau pan fydd cytundebau yn cael eu hadnewyddu.

10. CLUDIANT AR GYFER DISGYBLION AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG, ANABLEDD A/NEU GYFLWR MEDDYGOL

Ni fydd anghenion cludiant arbennig gan lawer o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA), anabledd a/neu gyflwr meddygol a bydd eu hawliau yn dilyn rhai disgyblion eraill mewn ysgolion prif ffrwd. Yn yr achosion hyn bydd y polisi cludiant ysgol cyffredinol yn gymwys. (Gweler adrannau 6-8 ac 11)

Efallai bydd disgyblion ag AAA, anabledd a/neu gyflwr meddygol na allant gerdded i'w hysgol addas agosaf oherwydd eu AAA, anabledd a/neu gyflwr meddygol yn gallu hawlio cludiant yn amodol ar asesiad o anghenion unigol gan yr awdurdod lleol mewn ymgynghoriad ag asiantaethau priodol eraill, gan gynnwys y gwasanaeth lechyd.

Wrth ystyried a all disgybl gerdded i'w hysgol addas agosaf, bydd ystyriaeth am a yw'n rhesymol disgwyl i'r disgybl gael oedolyn cyfrifol gydag ef/hi.

Yr 'ysgol addas agosaf' yw'r ysgol agosaf o ran pellter sy'n diwallu anghenion y disgybl fel y pennir gan yr awdurdod lleol a lle mae lle ar gael. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn ystyried a yw'r llwybr penodedig y byddai disgwyl i ddisgyblion ei gerdded 'ar gael' h.y. bod hi'n ddigon diogel. Bydd y cludiant penodol a fydd yn cael ei ddarparu'n cael ei benderfynu gan yr awdurdod lleol yn unol â'r asesiad o anghenion unigol a gynhaliwyd.

Os ydy plentyn yn mynd i ddewis arall o ysgol, h.y. nid yr ysgol addas agosaf a bennir gan yr awdurdod lleol, yn hytrach ysgol arall y mae'r rhiant/gofalwr wedi'i dewis, y rhiant/gofalwr fydd yn gyfrifol am gludo'r plentyn i'r ysgol ac adref.

Bydd yr holl gludiant i ddisgyblion ag AAA, anabledd a/neu gyflwr meddygol yn amodol ar adolygiad rheolaidd, a bydd yr awdurdod lleol yn pennu'r cyfnod adolygu ymhob achos a bydd adolygiad o leiaf yn flynyddol.

Cyfrifoldeb rhiant/gofalwr y disgybl yw dweud wrth yr awdurdod lleol am unrhyw newidiadau i anghenion a/neu gyflwr meddygol y disgybl er mwyn gallu adolygu'r angen parhaus am gludiant.

Mae angen pum niwrnod ysgol i osod y newid i drefniadau cludiant disgyblion ag AAA, anabledd a/neu gyflwr meddygol ar waith ar ôl i'r awdurdod lleol ddyfarnu'r cludiant.

11. CLUDIANT I YSGOLION GWIRFODDOL DAN GYMORTH

Mae disgyblion sy'n mynychu'r ysgol wirfoddol dan gymorth agosaf o enwad y rhiant yn derbyn cludiant am ddim os yw'r pellter yn unol â'r polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor.

12. TREFNIADAU ARBENNIG AR GYFER 'LLWYBRAU NAD YDYNT AR GAEL'

Gall y Cyngor amrywio ei wasanaeth yn ôl ei ddoethineb. Cydnabyddir y bydd achlysuron yn codi pan ystyrir bod rhai llwybrau'n rhain 'nad ydynt ar gael'. Yn yr amgylchiadau hyn mae gan y Cyngor yr hawl, lle ystyrir bod llwybr yn un nad yw 'ar gael', i ddarparu cludiant ysgol rhad ac am ddim sy'n is na'r cyfyngiadau dewisol fel yr argymhellir gan y swyddogion priodol. Fel mater o bolisi, caiff y llwybrau a ystyrir 'nad ydynt ar gael' eu hadolygu bob dwy flynedd. Bydd y Cyngor yn ystyried y meini prawf canlynol wrth ddod i benderfyniadau o'r fath:

- nad oes gwasanaeth bysiau ar gael ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol;
- bod graddfa'r perygl sy'n gysylltiedig â'r daith hon yn gymaint fel bod y plant a'r rhieni sy'n teithio gyda nhw mewn perygl gan draffig.

Ystyrir bod llwybr teithio ar gael os yw'n ddiogel (gyhyd ag y bo'n ymarferol rhesymol) i ddysgwyr heb anabledd nac anhawster dysgu gerdded ar ei hyd ar ei ben ei hun neu ag oedolyn os yw oedran y dysgwr neu ei lefel o ddealltwriaeth yn gwneud hyn yn ofynnol.

Os ystyrir bod y ffordd heb ei mabwysiadu yna ystyrir ei bod yn breifat ac na cheir trafniadaeth yn teithio ar hyd y ffordd hon. Cyfrifoldeb y rhieni ydyw, felly, i fynd â'u plant i'r man casglu.